

Annwyl Riant/Gofalwr,

07-01-21

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein trefniadau ar gyfer plant gweithwyr critigol a phlant sy'n agored i niwed. Fel y nodwyd yn fy llythyr cynharach, byddwn yn adolygu hyn yn rheolaidd. Fel y gwyddoch, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai ysgolion yn parhau i ddysgu ar-lein oherwydd y nifer cynyddol o achosion newydd o COVID-19 sy'n rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaeth iechyd.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor, a'r Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant, rydym bellach wedi adolygu ein 'rhestr' o weithwyr critigol sy'n gallu cael mynediad at ddarpariaeth ar y safle. Gwnaed penderfyniad i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae manylion llawn ar gael ar ei gwefan llyw.cymru/adnabod-plant-gweithwyr-hanfodol-canllawiau.

Rydym yn gofyn i ysgolion sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar y safle ar gael o ddydd Llun, 11 Ionawr. Mae'r cyfyngiadau llymaf ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd a rhaid i ni geisio cyfyngu'r rhyngweithio rhwng unigolion gymaint â phosibl i gyfyngu ar drosglwyddiad yr amrywiolyn COVID-19.

Felly, mae'n hanfodol bod pob plentyn y mae modd gofalu amdano'n ddiogel gartref yn aros gartref. Mae'n bwysig cofio bod teulu neu ffrindiau bellach yn gallu helpu â gofal plant, ac nid felly oedd hi yn ôl ym mis Mawrth.

Rhaid i ni ddiogelu ein dysgwyr, ein staff a'u teuluoedd drwy leihau nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol yn y cyfnod hwn, felly rydym yn annog rhieni i ystyried yn ofalus iawn a yw'n gwbl hanfodol bod eich plentyn yn cael lle.

Nid yw cael eu cynnwys ar y rhestr yn golygu y bydd gweithwyr yn y categorïau hyn yn anfon eu plant i'r ysgol neu'n gallu gwneud hynny. Efallai y bydd llawer o rieni sy'n gweithio yn y sectorau hyn yn gallu sicrhau bod eu plentyn yn cael ei gadw gartref yn ddiogel.

Ni ddylai rhieni wneud cais am lefydd os nad ydynt ar yr amserlen i weithio ac os nad ydynt wedi edrych ar bob opsiwn posibl arall ar gyfer gofal plant; er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai rhieni'n gallu newid eu trefniadau gweithio arferol i ateb anghenion gofal plant, neu byddan nhw neu eu partneriaid yn gallu gweithio gartref.

Mae'r ddarpariaeth hon ar gael yn ystod oriau ysgol arferol i ddisgyblion cynradd a disgyblion 12 oed neu iau mewn ysgolion uwchradd, yn ogystal â disgyblion sy'n mynychu darpariaeth arbenigol neu unedau cyfeirio disgyblion.

Bydd plant yn gallu cael mynediad i'w dysgu o bell yn yr ysgol, felly mae'n bwysig eu bod yn dod ag unrhyw becynnau gwaith a ddarperir gan eu hathro, yn ogystal â'u hoffer TGCh ac ati os ydynt wedi cael un gan yr ysgol. Bydd angen i ddisgyblion hefyd ddod â phecyn cinio gyda nhw. Os oes gan eich plentyn hawl i gael prydau ysgol am ddim, byddwch yn derbyn taliadau yn ystod y cyfnod hwn, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan y Cyngor](#).

Bydd eich ysgol yn rhoi ffurflen archebu i chi, a bydd angen archebu llefydd ymlaen llaw fel y gall ysgolion sicrhau bod ganddynt ddigon o staff.

Hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

Yn gywir,

Gareth Morgans

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg.

Gareth Morgans, BAdd/BEed; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English